

## Siop iard

7 February 2014

### **Stryd y Plas, Caernarfon, yn arwain y ffordd i siopau bach annibynnol**

Mae hyrwyddo crefft o safon uchel yn rhan o waith tri chrefftwr lleol, sydd wedi dod ynghyd yn ddiweddar i ddod â'u gweithdai i'r stryd fawr. Yn Siop iard ar Stryd y Plas yng Nghaernarfon, mae'r crefftwyr Ann Catrin Evans, Angela Evans a Dave Stephen yn elwa o'r galw gan siopwyr am gynnyrch lleol o ansawdd a phrofiad siopa unigryw.

"Crefftwyr annibynnol ydym sy'n gweithio gyda'n gilydd yn rheolaidd fel grŵp cymunedol i ddysgu cyrsiau crefft. Roedd yn gam mawr i ni benderfynu ymuno â'n gilydd ac yn gam mwy byth i fentro agor siop. Rydym mor ffodus o fod wedi ymuno â grŵp bywiog a chyffrous o fentrau annibynnol ar Stryd y Plas. Agor ein siop yng Nghaernarfon oedd y peth gorau a wnaethom; nid wyf yn gwybod pam na wnaethom hyn ynghynt" meddai Angela Evans, gemydd sy'n gweithio gydag arian sterling a chyfrwng cymysg.

Yn ogystal â rhedeg Siop iard yn gwerthu eu gwaith llaw unigryw, mae'r triawd creadigol yn gweithio gyda'i gilydd fel grŵp cymunedol yn rhedeg cyrsiau crefft o ansawdd mewn uned a adnewyddwyd ganddynt yn ddiweddar, sef stiwdio SAITH, ar iard Glynllifon. "Gallwch ymweld â ni yn Siop iard lle byddwn yn hapus i argymhell cwrs i chi gydag un ohonom ni neu un o'n hartistiaid gwadd. Gobeithiwn eich ysbrydoli gyda'r amrywiaeth eang o weithdai a gynhelir yn stiwdio SAITH", meddai Ann Catrin Evans, cerflunydd a gemydd.

Derbyniodd y grŵp cymunedol gyllid i adnewyddu stiwdio – sef stiwdio SAITH ar iard Glynllifon ac maent wedi creu ystafell foethus yn llawn adnoddau celf a chrefft. Cafwyd y cyllid drwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig. Mae modd llogi stiwdio SAITH i hyd at 40 o bobl at ddiben cyrsiau a chynadleddau, neu fel lle i greu gwaith celf, cynnal darlithoedd a digwyddiadau eraill.

"Roeddem eisiau i stiwdio SAITH fod yn lleoliad sy'n cynnwys offer pwrpasol i greu celf, crefft a cherddoriaeth. Mae'r tân coed sydd yno yn cadw'r lle yn gynnes ac yn ddeniadol. Rydym yn gobeithio y bydd mwy o sefydliadau a grwpiau yn dod atom i Siop iard i drafod llogi stiwdio SAITH, meddai Dave Stephen, gweithiwr llechi traddodiadol, artist llechi, cerddor creadigol ac awdur.

Wrth i nifer gynyddol o bobl fynd i brynu nwyddau ar-lein, mae'r brand mawr stryd fawr yn newid yn gyflym iawn. "Mae siopwyr eisiau rhywbeth gwahanol a gallwch ddod o hyd iddo yn Siop iard ar Stryd y Plas. Gallwch brynu anrheg arbennig neu waith celf unigryw, ac mae popeth sydd yma wedi

ei wneud yn y fan a'r lle. Yna ewch ymlaen i fwynhau paned a rhywbeth blasus i'w fwyta cyn ymweld â'r siopau annibynnol eraill ar y stryd. Efallai bod Caernarfon yn arwain y ffordd mewn gwerthu ar y stryd fawr?" meddai Angela.

Mae gwerthu ar y stryd fawr yn cael ei hyrwyddo gan Mary Portas, arbenigwr adwerthu a darlledwr. Dywed, "mae ein strydoedd mawr yn rhan bwysig iawn o'r broses o adeiladu cymunedau a dod â phobl at ei gilydd mewn ffordd na all archfarchnadoedd na chanolfannau siopa ei wneud byth, waeth pa mor gyfleus, difyr a slic ydynt".

Os cânt 2014 llwyddiannus, maent yn gobeithio y bydd cymuned busnes Stryd y Plas yn cryfhau ac y bydd nifer yr ymwelwyr yno'n cynyddu. "Gallwch archebu lle ar gwrs crefft ar-lein, ond os hoffech ddysgu mwy am yr hyn rydym yn ei gynnig, galwch i mewn i Siop iard i gael sgwrs. Os ydych yn chwilio am ddarn o emwaith, celf llechi neu gerflun, mae'n rhaid i chi ei weld a'i gyffwrdd. Rwy'n siŵr bod cwrdd â'r artist a'i gwnaeth yn fantais ychwanegol," meddai Ann.

Picture title      iard-3ni.jpg

Y Crefftwyr Ann Catrin Evans, Dave Stephen ac Angela Evans yn Siop iard ar Stryd y Plas, Caernarfon.

Mrs Jo Quinney MCIPR Ymarferydd Achrededig / Accredited Practitioner

**Q Marketing & PR Ltd**

Ffôn / Tel: 01248 715 611

Symudol / Mob: 07748 155 116

**Nodiadau i Olygyddion / Notes to Editors:**

7B Stryd y Plas, Caernarfon, Gwynedd LL55 1RR

01286 672472

<http://iard.co.uk/>